CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 10 Mehefin 2014 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol	Arthur Jones, Trefor Jones, Owain Owen, Iona Phillips, John T Rowlands, Cynghorydd John W Griffith – Talybolion
Ymddiheuriadau	Cadeirydd Geraint Owen, Glyn Hughes, John Griffith, Peredur Hughes, Ffion Roberts, Ifan P Rowlands, Hugh Williams
Yn ychwanegol	

Nad oedd y Cadeirydd na'r Is-gadeirydd yn gallu bod yn y cyfarfod. Yn ogystal roedd y ddau, Geraint Owen a John Griffith, yn bwriadu sefyll i lawr. Roedd rhaid dewis Cadeirydd newydd er mwyn i'r cyfarfod cymryd lle.

1 **Cadeirydd ac Is-Cadeirydd**

Yn unfrydol penodwyd Owain Owen fel Cadeirydd, gyda Mr Trefor Jones yn cynnig a Mr John Trefor Rowlands yn eilio.

Penodwyd Ifan Rowlands fel Is-Gadeirydd gyda Mrs Iona Philips yn cynnig a Mr Arthur Jones yn eilio.

2 **Cofnodion cyfarfod Ebrill/Mai 2014**

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Ebrill 2014 gyda Mr John Trefor Rowlands yn cynnig a Mr Arthur Jones yn eilio.

3 **Ysgol y Llannau**

Adroddwyd Cyng. John Griffith nad oedd CSYM wedi penderfynu ar safle eto ac yr oeddynt dal yn ymgynghori. Roedd grant o £2.54m ar gael i'w adeiladu oddi wrth y Llywodraeth ond bu rhaid i CSYM cyfrannu'r gweddill.

Mae mwy o dir ar gael yn Llanfachraeth, ac mae'r lleoliad wedi sgorio'n dda gyda chriteria'r Cyngor.

Mae Tref Alaw dal i gefnogi lleoliad mwy canolig a neutral.

Yn ogystal mae yna bryderon na fydd yr ysgol newydd digon mawr o'r cychwyn, ag yn enwedig yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd.

4 **CSYM**

4.1 *Cyfarfod y Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned* : Nos Iau, 12 Mehefin – nodwyd ond neb yn gallu mynd.

4.2 *Tori Llwybrau / coed* – roedd y Clerc wedi gwneud trefniadau i dori'r llwybrau lle bu angen.

4.3 *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Gwynedd ac Ynys Môn (2011-2026)* - nodwyd

http://www.ynysmon.gov.uk/infobase-ynys-mn?redirect=false

http://anglesey.infobasecymru.net/IAS/

5 **Un Llais / SLCC**

5.1 *Financial Regulations* – gohurio trafod tan cyfarfod Medi gyda ddogfennau swyddogol eraill.

5.2 *Digwyddiad ar y Cyd Un Llais a SLCC, Llandudno* – roedd y Clerc wedi bod i'r cyfarfod yma. Mi fydd yna fwy o waith i'w wneud ar gyfer y Datganiad Blynyddol o 2015 ymlaen.

6 **Datganiad Blynyddol**

Derbynwyd y Datganiad Blynyddol fel y tablwyd.

7 **Materion a codwyd**

7.1 Adroddwyd Cyng. John Griffith fydd cost cinio ysgol yn codi o £1.90 i £2 y diwrnod yn ysgolion Cynradd, ac o £2.10 i £2.20 yn ysgolion Uwchradd.

7.2 Mae grant dal ar gael oddi wrth CSYM i bensiynwyr sydd yn cael trafferth talu eu treth cyngor. Mae'r Llywodraeth wedi stopio cefnogi'r cynllun.

7.3 Roedd Pwyllgor Gwaith CSYM wedi cael ei darlledu'n fyw ar y we am y tro cyntaf y diwrnod yna!